

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 28ain Fai 2019

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, John D Jones, Ffion Williams, Guto G Jones, Einion Edwards, Cyngorydd Sir, Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau , Prys Ellis, Ieuan Jones, Trystan Humphreys, Maria Roberts

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed Ebrill 2019.

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol. Deallwyd bod difrod wedi ei wneud yn ddiweddar yn y toiledau yn y llan. Y clerch i gysylltu gyda'r heddlu i geisio gwybodaeth ynglŷn â'r mater.

[1.1] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed

Cytunodd John D Jones i gael gair gyda Mr Spencer ynglŷn a'r gwaith

[1.2] Ffermydd Gwynt/ Cyfraniad Clean Earth

Penderfynwyd dosbarthu gweddill o'r arian [£2,500] a dderbyniwyd gan Clean Earth fel a ganlyn; Merched y Wawr £200, Elusen Ellis Davies Tŷ Du £200. Nodwyd fod £100 yn weddill.

[1.3] Pont Pentrellyncymer

Nodwyd ateb oddiwrth Cyngor BS Conwy fod y gwaith atgyweirio i gael sylw yn y dyfodol agos.

[1.4] Arwydd Stryd King / Yr Ysgol

Cyfeiriodd y clerch at sylwadau gan Wil Roberts peiriannydd Cyngor BS Conwy yn esbonio ei fod yn bwriadu darganfod a ydi'n bosib addasu arwydd Stryd King i gydymffurfio gyda 20 m.y.a. wrth yr ysgol

[1.5] Cais Helen Williams / Cae Llwyd

Cytunodd John D Jones a'r clerch gael golwg ar y darn tir y mae Helen Williams yn awyddus i brynu.

[1.6] Dol Carafanau Afon Brenig

Y clerch i gysylltu'n mhellach gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â nad oedd y biniau sbwriel wedi ei derbyn mewn bryd ar gyfer tymor y Gwanwyn / Haf.

[1.7] Strategaeth Hiraethog

Y clerch i anfon gwahoddiad i Eirian Jones i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Y brif Agenda

[1.8] Cais Cynllunio

Estyniad I ddarparu ystafell storio, toiledau, a.y.b. Glan-y-Gors, Cerrig-y-Drudion
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.9] Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol,

Cyfeiriodd y clerc at y sylwadau canlynol:

[1] Fe wnaed gyfraniad o £1000 i Grŵp Cefnogol y Llyfrgell, nid oedd cydnabyddiaeth wedi ei dderbyn. Y clerc i ofyn am gydnabyddiaeth

[2] Roedd 3 sic nad oeddent wedi ei cyflwyno i'r banc heb ei dangos yn ddigon clir yn y cyfrifon. Dywedodd y clerc ei fod wedi trafod y mater gyda'r archwiliwr

[3] Nid oedd y cyfrifon yn balansio'n gywir oherwydd nad oedd un taliad wedi ei gynnwys yng nghyfanswm y cyfrifon. Eglurodd y clerc mae trafferthion gyda'r cyfrifiadur oedd y rheswm.

[b] Cyfrifon

Penderfynwyd cymeradwyo cyfrifon y flwyddyn ariannol 2018/19 a ddsbarthwyd yn y cyfarfod.

[c] Y Ffurflen Flynyddol / Archwiliwr Allanol

Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol a baratowyd ar gyfer ei dychwelyd i BDO yr archwiliwr allanol.

[2.1] Cyfeillion Cerrig-y-Drudion

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Mr Glyn Carter trysorydd y Grŵp yn gwneud ymholiad a ydi'n bosib llogi'r Ystafell Blwyf am daliad o £8.70 yr wythnos gan mai hyn yw'r cyfanswm wythnosol sydd yn cael ei dderbyn. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd gwaetha'r modd nad oedd yn bosib gwahaniaethu rhwng y grŵp a mudiadau eraill oedd yn defnyddio'r adeilad.

[2.2] Maes-y-Ffynnon

Deallwyd nad oedd mynediad i'r ystâd yn bosibl ar adegau i'r gwasanaethau brys o ganlyniad fod moduron yn parcio ar fin y ffordd sydd yn arwain i'r ystâd.

Y clerc i anfon at y Cyngor Sir yn gofyn am gael cynnwys y lleoliad yn yr adolygiad parcio, sydd i gael ei wneud.

[2.3] Camerâu Cylch Agos / Y Ganolfan

Nodwyd llythyr gan Rhian Lloyd Ellis yn amlinellu fod bwriad i osod camerâu wrth ddrws y Ganolfan a.y.b. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad. Cytunodd Menai Hughes i gael gair gyda Rhian.

[2.4] Cais am Gyfraniad

Darllenwyd llythyr gan Ms Tracey Owens Rheolwraig Busnes Ysgol Cerrig yn ceisio cyfraniad tuag at weithgareddau ysgolion gwledig yn yr Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst Dyffryn Conwy.

Y clerc yn y lle cyntaf i gysylltu gyda Ms Owens yn gofyn am wybodaeth ynglŷn a'r costau.

[2.5] Nodwyd llythyrau o ddiolch am gyfraniad gan y Cyngor;

[a] Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

[b] Y Gorlan